# Cylchlythyr Cymru Can: Diwylliant a'r Iaith Gymraeg



## Apêl gan Derek: Diwylliant bywiog a Chymraeg sy'n ffynnu

---

*Mae blynyddoedd o gyni wedi taro'r sector diwylliannol yn galed, gan arwain at doriadau i wasanaethau a chau lleoliadau.*

*Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn cymharu'n wael â gwledydd Ewropeaidd eraill.*

*Nid oes amser i aros os ydym am ddiogelu ein diwylliant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*


*Dyna pam y gwnes i bwnc diwylliant yn rhan fawr o adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, fy nghyngor statudol i gyrff cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Ebrill.*

---

Mae diwylliant yn llunio pwy ydym ni, yn darparu ymdeimlad o berthyn, ac yn dylanwadu ar y math o ddyfodol yr ydym am ei greu. Mae'n ein clymu ni at ein gilydd, gan greu cymunedau bywiog a chysylltiedig.

Cymru yw'r unig wlad yn y byd sy'n cydnabod llesiant diwylliannol yn ein diffiniad statudol o ddatblygu cynaliadwy o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fe'i hystyrir yn gyfartal ochr yn ochr â llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac nid yw'n cael ei ystyried yn 'braf i'w gael' yn unig.

Ond, er gwaethaf hyn, mae ein sector diwylliannol yn wynebu pwysau gwirioneddol. Mae pandemig COVID-19 a thoriadau dwfn i gyllid wedi gadael eu hôl.





- Mae Cymru bellach yn drydydd o waelod gwledydd Ewrop o ran gwariant fesul person ar wasanaethau hamdden a chwaraeon, ac yn ail o'r gwaelod o ran gwasanaethau diwylliannol.
- Mae ein trysorau cenedlaethol, gan gynnwys cestyll ac asedau treftadaeth eraill, mewn perygl difrifol oherwydd newid hinsawdd ac maent yn cael eu gwerthu oherwydd cyllidebau sy'n lleihau.
- Mae diwylliant a'r celfyddydau yn dod yn fwy anhygyrch i rai cymunedau fel y rhai sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gwael, ac aelwydydd incwm isel lle mae fforddiadwyedd yn rhwystr.
- Nid yw llawer o gyrff cyhoeddus yn cynnwys diwylliant ac iaith yn eu nodau llesiant o hyd - dim ond 10.5% o nodau llesiant cyrff cyhoeddus, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u gosod gan sefydliadau sydd â rôl ddiwylliannol statudol.

Mae'r heriau hyn yn dangos i ni fod angen gweithredu beiddgar, ar y cyd i amddiffyn yr hyn sydd bwysicaf.

Dyna pam yn adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 rwy'n galw am:

- **Bil Diwylliant yn nhymor nesaf y Senedd**, i wneud diwylliant yn ofyniad statudol ar gyfer cyrff cyhoeddus, gyda chefnogaeth **Ysgrifennydd Cabinet dros Ddiwylliant, Celfyddydau a Chwaraeon.**
- **Deddf Hawl i Brynu Cymunedol**, fel y gall pobl leol gymryd perchnogaeth o adeiladau, tir ac asedau cymunedol gwerthfawr.
- Pob corff cyhoeddus i **gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle** ac adeiladu diwylliant dwyieithog cryfach trwy gynlluniau clir.
- **Ymrwymiadau i ymuno â Siarter Creu Lleoedd Cymru** a gwreiddio ei hegwyddorion mewn gwneud penderfyniadau.
- Pob corff cyhoeddus i **hybu gweithredu cymunedol trwy gynhyrchu strategaethau gwirfoddoli sefydliadol** mewn partneriaeth â gweithwyr a'r sector gwirfoddol.


CYMUNED
COMMUNITY
Roedd y peiriant coffi hwn yn gweini poblogaeth Ynys-y-bwl o 1909 hyd at 1988 yng Nghaffi Crescis, 9 Robert Street. Mae'n bosibl gweld y peiriant yn y ffotograff o Cresci's a dynnwyd gan Mo Wilson ym 1980. Allwch chi ddychmygu sawl cwpan o goffi mae hwn wedi'i wneud dros y blynyddoedd?


EISTEDDFOD




Mae arwyddion cadarnhaol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu blaenoriaethau newydd ar gyfer diwylliant, a dylai'r cyfleoedd buddsoddi a chydweithio a gyhoeddwyd gefnogi diwylliant i ffynnu yng nghanol ein cymunedau.

Croesawodd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam tua 150,000 o bobl i ddathlu'r ŵyl ddiwylliannol fwyaf yn Ewrop, atgof o gryfder ein diwylliant yng Nghymru.

Yn yr Hydref, byddaf yn cyhoeddi ymchwil newydd yn amlinellu camau manwl y gallwn eu cymryd i wella'r amddiffyniad statudol ar gyfer diwylliant.

Rwyf hefyd yn dod â rhanddeiliaid diwylliannol ynghyd mewn Fforwm Diwylliant, ar 18 Medi yn Aberystwyth ac ar-lein, i fyfyrio ar y camau y gallwn eu cymryd ar draws y sector cyhoeddus a thu hwnt i gryfhau lles diwylliannol.

Nid dim ond rhywbeth yr ydym yn ei etifeddu yw diwylliant; mae'n rhywbeth yr ydym yn ei greu gyda'n gilydd, bob dydd. Rhaid inni gadw diwylliant yn fyw, un sy'n ffynnu ac sy'n esblygu. Cymru Can.

Darllenwch fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025] am fy nghanfyddiadau llawn a'm hargymhellion i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ar gefnogi ein [Diwylliant a'n Iaith Gymraeg.]


## Ymatebion artistiaid i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol

Rwyf wedi gwneud hi'n [genhadaeth] i mi gefnogi cyrff cyhoeddus i hyrwyddo diwylliant, creadigrwydd a'r iaith Gymraeg—gan sicrhau eu bod yn cyfoethogi ein cymunedau ac yn dod â phobl ynghyd.

Dyna pam y gwnes i [wahodd pum artist i ymateb yn greadigol] i themâu fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025.

Wedi'u dewis trwy alwad agored, anogwyd yr artistiaid i ddod â'r adroddiad yn fyw wrth fynegi eu barn eu hunain. Mae eu gwaith yn cysylltu heriau cenedlaethol â realiti bob dydd cymunedau ledled Cymru, gan gynnig ysbrydoliaeth a her i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.





- **Paskaline – Tik' Tok' (Living Canvas for Climate Change)**

Gan ddefnyddio'r corff dynol fel cynfas byw, mae'r darn hwn yn archwilio achosion, effeithiau ac atebion newid hinsawdd. Mae model yn syllu ar awrwydr yn ein hatgoffa bod y ffenestr ar gyfer gweithredu yn cau'n gyflym.

- **Flatboy (Seren Thomas) – Map of Dreams**

Wedi'i gynnwys ar glawr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r map hwn yn dychmygu Cymru wedi'i hadeiladu ar fodel cymdeithasol iechyd—cyd-gynhyrchu, atal, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau—gan dynnu ar fentrau sydd eisoes ar y gweill yma.

- **Kyle Stead – What's Our Future**

Perfformiad llafar wedi'i ffilmio gyda'r Rhondda Fach yn y cefndir, yn galw am well cefnogaeth iechyd meddwl, mwy o fuddsoddiad yn y celfyddydau a diwylliant, a gwell dealltwriaeth o niwroamrywiaeth.



---

**"Rwy'n angerddol am lesiant yng Nghymru oherwydd rwy'n credu y gallwn wneud yn well.**

**Mae celf yn arf pwerus ar gyfer newid oherwydd gall gynnig safbwyntiau ffres.**

**Rwyf am i gyrff cyhoeddus wybod ein bod yn darparu gwerth—ac ni ddylem fod yn ymladd am sbarion, yn cystadlu am adnoddau, lle a chyllid cyfyngedig."**

*Kyle Stead, 28, Rhondda*

---

- **Teulu Von Flap – Gweithred Cydbwyso / Balancing Act**


Perfformiad teuluol i ffilmio sy'n archwilio cydbwysedd—llythrennol a throsiadol—trwy themâu fel hinsawdd, anghydraddoldeb bwyd, tai, iechyd a diwylliant, i gyd wedi'u gweld trwy lens bywyd teuluol.

- **RightkeysOnly – Mi**

Darn o gerddoriaeth sy'n mynd i'r afael â gweithredu yn erbyn yr hinsawdd o safbwynt anabledd. Trwy gyfuno synau naturiol ag elfennau electronig, mae'r artist yn rhoi llais i'r amgylchedd wrth eiriol dros Gymru sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd ac sy'n gynhwysol o gymunedau Anabl.

Gallwch ddarllen Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 llawn, gan gynnwys ein canfyddiadau a'n hargymhellion ar ddiwylliant yng Nghymru, ar ein gwefan.




## Twf- Siarter y Gymraeg yn y Gwaith

Mae Cymru wedi ymrwymo i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Gall Cymru gyflawni hyn ond dim ond os ydym yn ehangu capasiti'r iaith Gymraeg mewn gweithleoedd ac yn ymgorffori'r Gymraeg ym mywyd bob dydd.

Yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, rwyf wedi galw **ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu cynllun clir i gynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg**, gan ganiatáu i staff fyw eu bywydau gwaith fwyfwy trwy gyfrwng y Gymraeg a meithrin diwylliant dwyieithog cryfach yn y gweithle.

Mae TUC Cymru wedi lansio Siarter Twf, fframwaith i helpu gweithwyr, eu canghennau undebau llafur a chyflogwyr i gydweithio i greu gweithleoedd dwyieithog cynhwysol.

Drwy lofnodi Siarter Twf, mae canghennau'r undebau llafur a'r cyflogwr yn cymeradwyo fframwaith ar y cyd ar gyfer cynyddu'r Gymraeg yn y gwaith, gan helpu i ddiogelu swyddi, amddiffyn cymunedau Cymraeg eu hiaith a chyfrannu at ddyfodol cadarnhaol i'r Gymraeg fel iaith fyw ym mhob agwedd ar ein bywydau.

Dysgwch fwy am sut mae Siarter Twf yn cefnogi gweithleoedd dwyieithog cynhwysol ar eu gwefan a darllenwch ein hargymhellion ynghylch diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ein Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025.




## Ymunwch â'n cynhadledd – Arwain Dyfodol Bwyd Teg

Mewn cydweithrediad â Miller Research, y Comisiwn Ffermio Bwyd a Chefn Gwlad, a'r Athro Kevin Morgan, rydym yn archwilio sut y gallai Cymru arwain y ffordd o ran sicrhau dyfodol tecach yn ein system fwyd.

Yn ein Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun hirdymor i wella diogelwch bwyd Cymru a sicrhau mynediad cyfartal at ddeietau lleol, fforddiadwy, iach a chynaliadwy.

O'r fferm i'r fforc, mae bwyd yn hanfodol i gyflawni nodau llesiant Cymru ar gyfer iechyd ein pobl a'n planed.

Cyn Gŵyl Fwyd y Fenni, byddwn yn trafod sut y gallwn ddiwygio ein system fwyd i gefnogi ein hiechyd a'n GIG, rôl llythrennedd bwyd wrth lunio arferion gydol oes a'r hyn y gallwn ei ddysgu o ddulliau llywodraeth eraill. Ymunwch â ni ddydd Gwener 19 Medi yn y Fenni – **sicrhewch eich tocynnau nawr**.

Mae'r siaradwyr yn cynnwys:

- **Sue Pritchard**: Prif Weithredwr, Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad
- **Yr Athro Kevin Morgan**: Prifysgol Caerdydd, awdur Serving the Public: The good food revolution in schools, hospitals and prisons.
- **Kim Smith**: Ymchwilydd PhD yng Nghanolfan Polisi Bwyd a sylfaenydd TastEd

- **Tim Jackson**: Economegydd ecolegol ac awdur. Cyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Dealltwriaeth o Ffyniant Cynaliadwy
- **Derek Walker**: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru




## Cynhadledd a Gwobrau Ystadau Cymru 2025

Mewn partneriaeth ag Ystadau Cymru, rydym yn eich gwahodd i ymuno â **Chynhadledd a Gwobrau Ystadau Cymru** sydd ar ddod - *Degawd o Weithredu: Alinio Rheoli Ystadau â'r Gymru a Garem* **ar-lein ar 6 Tachwedd 2025**.

Gyda myfyrdodau o ddeng mlynedd cyntaf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda'i gilydd bydd y mynychwyr yn:

- archwilio sut mae rheolwyr ystadau wedi gyrru'r agenda datblygu cynaliadwy ymlaen
- dadbacio Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025
- taflu goleuni ar astudiaethau achos ysbrydoledig sydd â meddwl hirdymor wrth eu calon

Archebwch eich lle am ddim ar gyfer cynhadledd a gwobrau 6 Tachwedd 2025.

Enwebwch brosiect cydweithredol o ystâd y sector cyhoeddus, sy'n ymgorffori cynaliadwyedd, arloesedd a meddwl hirdymor erbyn 5pm ar 8 Medi 2025

Dewch o hyd i ragor o wybodaeth am y digwyddiad a sut i enwebu prosiectau sy'n gweithredu heddiw am yfory gwell, ni waeth pa mor fawr neu fach, ar wefan Ystadau Cymru.



## Cysylltwch â ni

Am ddal i fyny ar rifynnau blaenorol y cylchlythyr? Dewch o hyd iddynt ar ein gwefan yma.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni trwy:

cenedlaethaurdyfodol.cymru

cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

@futuregencymru

Comisiynydd
**Cenedlaethau'r**
**Dyfodol**
Cymru

**Future**
**Generations**
Commissioner
for Wales